# Y Pwyllgor Busnes

## Cofnodion BC(3)11-10

**Dyddiad:** Dydd Mawrth 20 Ebrill 2010
**Amser:** 08.30
**Lleoliad:** Ystafell Gyfarfod Llawr 4, yr Uned Gorfforaethol

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Dafydd Elis-Thomas, y Llywydd (Cadeirydd)
Jane Hutt, y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb
Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru
Alun Cairns, Rheolwr Busnes y Ceidwadwyr Cymreig
Peter Black, Rheolwr Busnes Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

### Swyddogion yn bresennol

Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad
Marion Stapleton, Swyddfa Arweinydd y Tŷ
Aled Eirug, Ymgynghorydd Cyfansoddiadol
Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Deddfwriaeth
Sulafa Halstead, Pennaeth Pwyllgorau'r Cynulliad
Anna Daniel, Clerc y Pwyllgor Busnes

### 1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

### 2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol

#### BC(3)10-10 (Cofnodion drafft) - Dydd Mawrth 23 Mawrth 2010

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor ar eu ffurf ddrafft. Gan nad oedd unrhyw sylwadau, byddant yn cael eu cyfieithu yn barod i'w cyhoeddi.

**I'w weithredu gan: Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes**

### 3. Busnes i ddod

#### Busnes yr wythnos hon - BC(3)11-10(p1)

3.1 Cytunodd y Pwyllgor i ohirio'r ddadl ar ymchwiliad y Pwyllgor Cynaliadwyedd i Lifogydd yng Nghymru tan 28 Ebrill 2010.

3.2 Cytunodd y Pwyllgor na fydd Cyfnod Pleidleisio dydd Mawrth a dydd Mercher yn digwydd cyn 17.00.

3.3 Nododd y Pwyllgor drefn busnes 20 a 21 Ebrill 2010.

#### Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf - BC(3)11-10(p2)

3.4 Nododd y Pwyllgor amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

#### Amserlen busnes y Cynulliad a busnes heblaw busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf - BC(3)11-10(p3)

3.5 Cytunodd y Pwyllgor ar drefn busnes y Cynulliad.

3.6 Cytunodd y Pwyllgor ar drefn busnes heblaw busnes y Llywodraeth.

3.7 Cytunodd y Pwyllgor i aildrefnu'r ddadl ar ymchwiliad y Pwyllgor Cynaliadwyedd i Lifogydd yng Nghymru ar gyfer 28 Ebrill 2010.

3.8 Cytunodd y Pwyllgor i aildrefnu dadl Eleanor Burnham am ei chynnig i bleidleisio dros Fesur Addysg Oedolion ar gyfer 28 Ebrill 2010.

### 4. Deddfwriaeth

#### (i) Mesur Arfaethedig y Gymraeg (Cymru): cais gan Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2 i ymestyn dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad Cyfnod 1 - BC(3)11-10(p4)

4.1 Trafododd y Pwyllgor gais am estyniad o wythnos i'r dyddiad cau (16 Gorffennaf 2010) ar gyfer cyflwyno adroddiad ar Fesur Arfaethedig y Gymraeg (Cymru). Cytunodd y Pwyllgor i roi estyniad tan 23 Gorffennaf 2010.

**(ii) Mesur Arfaethedig Iechyd Meddwl (Cymru): cais gan Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 3 i gynnal cyfarfod swyddogol ar 4 Mai 2010 - BC(3)11-10(p5)**

4.2 Cytunodd y Pwyllgor ar gais gan Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 3 i gynnal cyfarfod swyddogol ddydd Mawrth 4 Mai 2010 yn hytrach na dydd Iau 6 Mai 2010.

**YSGRIFENYDDIAETH Y PWYLLGOR BUSNES**